



Cylchlythyr – Rhagfyr 2021

Croeso i newyddlen Morlais sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi am y prosiect.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais gyda'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Os yr hoffech wybod mwy am Morlais cysylltwch â ni ar info@morlaisenergy.com.

Golau gwyrdd i Morlais - cam mawr ymlaen

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatâd i ddatblygu Morlais. Mae hyn yn golygu gall gwaith adeiladu ddechrau ar y tir i baratoi ar gyfer gwaith ar y môr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) bellach hefyd wedi cadarnhau y bydd yn rhoi trwydded forol i'r cynllun. Ewch i'r [wefan](#) am y stori lawn.

Dyweddodd Gerallt Llewelyn Jones, Cyfarwyddwr gyda Morlais: "Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi sicrhau caniatâd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Morlais ac wedi cael cadarnhad gan CNC o ran y trwydded forol hefyd. Daw'r penderfyniad ar ôl blynyddoedd lawer o waith caled ac ymgynghori. Erbyn hyn, rydyn ni'n edrych ymlaen at symud i'r cam nesaf ac at wireddu'r cynllun "

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a CNC, bydd gwaith adeiladu a gweithredu yn digwydd fesul cam i alluogi monitro effaith ar fywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae disgwyl i'r gwaith ar y tir ddechrau'r flwyddyn nesaf, gyda'r gwaith ar y môr yn dechrau yn 2023. Mae Morlais yn awyddus ddiolch i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Cyngor Sir Ynys Môn, Bargaen Twf Gogledd Cymru, yn ogystal â'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear am eu cefnogaeth barhaus i'r prosiect.

Archwilio cychwynnol ar y safle

Mae contractwyr wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Menter Môn dros yr wythnosau diwethaf ar waith archwilio cychwynnol ar y safle sy'n cynnwys ymchwiliadau geotechnegol ar hyd ffyrdd Ynys Lawd a Phorth Dafarch a ger Parc Cybi.

Bydd rhywfaint o reoli traffig yn gysylltiedig â'r gwaith ac mae disgwyl iddo bara tua thair wythnos. Mae'r gweithgarwch yn rhan allweddol o'r cyfnod cyn adeiladu - mae trigolion lleol a chynrychiolwyr etholedig wedi cael gwybod.

Grŵp Cyswilt Cymunedol a digwyddiad 'cwrdd â'r contractwr'

Y bwriad yw cynnal cyfarfod cyntaf Grŵp Cyswilt Cymunedol Morlais yn gynnar y flwyddyn nesaf. Diben y grŵp yw diweddarau trigolion a busnes yn yr ardal yn ogystal â chynrychiolwyr lleol am y cynllun.

Ar ôl penodi'r prif contractwr yn y flwyddyn newydd, byddwn hefyd yn trefnu digwyddiad 'cwrdd â'r contractwr'. Bydd hwn yn gyfle i bobol siarad yn uniongyrchol efo'r cwmni fydd yn gwneud y gwaith adeiladu'r seilwaith ar y tir. Gwylwch allan am fwy o wybodaeth.

Rheoli Traffig

Yn ystod y prosiect bydd rhywfaint o darfu ar draffig lleol. Byddwn yn ceisio i gadw hyn i isafswm bob amser ac yn cytuno ar y gwaith ymlaen llaw gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i drigolion a busnesau lleol a bydd ein gwefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda manylion unrhyw waith a fydd yn digwydd ar y ffyrdd gan gynnwys cau ac unrhyw systemau rheoli traffig.

Contract ar gyfer Gwahaniaeth

Mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu o £20 miliwn y flwyddyn ar gyfer ynni llif llanw ym mhedwaredd rownd arwerthiant y Contract ar gyfer Gwahaniaeth (CfD). Mae hyn yn golygu, er bod datblygwyr llif llanw yn dal i gystadlu â'i gilydd yn ystod yr arwerthiant, nad oes rhaid iddynt bellach gystadlu â thechnolegau adnewyddadwy eraill. Roedd hwn yn gam cadarnhaol sylweddol ymlaen i'r diwydiant ac mae Morlais wedi'i groesawu.

Cynllun CfD yw prif fecanwaith [Llywodraeth y DU](#) ar gyfer cefnogi cynhyrchu trydan carbon isel. Mae CfD yn cymhell buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy drwy ddarparu costau uchel ac oes hir i ddatblygwyr prosiectau, gyda gwarchodaeth uniongyrchol rhag prisiau cyfanwerthu cyfnewidiol. Maen nhw'n amddiffyn defnyddwyr rhag talu costau cymorth uwch pan fo prisiau trydan yn uchel.

COP 26 Bach

I gyd-fynd â'r uwchgynhadledd fyd-eang ar newid hinsawdd yn Glasgow fis diwethaf, cynhaliodd Menter Môn ei digwyddiad ei hun ar gyfer ysgolion cynradd lleol. Nod yr uwchgynhadledd ar gyfer ysgolion oedd codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ymhlith disgyblion a'r angen i weithredu. Dyma'r tro cyntaf i Cop Bach gael ei gynnal. Roedd yn gyfle i ddisgyblion blwyddyn pump a chwech deimlo'n rhan o'r hyn oedd yn digwydd yn Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd.

Hwb Hydrogen Caergybi

Cynhaliwyd digwyddiad gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghaergybi i rannu gwybodaeth gyda thrigolion a busnesau lleol ar gynlluniau ar gyfer Hwb Hydrogen newydd ar gyfer Parc Cybi. Bydd yr Hwb, sydd hefyd yn brosiect Menter Môn, yn gweld hydrogen yn cael ei gynhyrchu ar y safle a'i ddosbarthu fel tanwydd gwyrdd. Dyma fydd yr hwb cyntaf o'i fath yng Nghymru. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ar y safle yn 2022 gyda'r Hwb yn weithredol o 2023. Am fwy o wybodaeth ewch i [Menter Môn - Hydrogen Hub \(mentermon.com\)](#).

Gan ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd